



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar
National Star yng Nghymru - Mamhilad

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â National Star yng Nghymru - Mamhilad

Mae National Star yng Nghymru (NSiW) yn goleg addysg bellach arbenigol dibreswyl. Mae'n darparu lleoliadau ar gyfer 15 o ddysgwyr rhwng 19 a 23 oed sydd ag ystod o anghenion, gan gynnwys anawsterau dysgu cymhleth, anableddau corfforol ac anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA).

Mae cwricwlwm y coleg yn cynnig llwybrau dysgu personoledig gyda nodau ar gyfer dysgu a byw yn annibynnol. Cenhadaeth y coleg yw 'galluogi pobl ag anableddau i gyflawni eu potensial trwy wasanaethau dysgu, pontio a chyrchfan personoledig'.

Mae'r coleg wedi'i leoli ar Ystâd Parc Mamhilad, ger Pont-y-pŵl. Mae'r adeilad yn cynnwys ystafell ddosbarth synhwyaidd, ystafell ddosbarth llythrennedd digidol, ystafell therapi, ystafell synhwyaidd, ystafell ymneilltuo un i un, a chegin ar gyfer datblygu medrau coginio a medrau bywyd.

Mae National Star yng Nghymru yn rhan o'r National Star Foundation, ac yn rhannu swyddogaethau allweddol â'r National Star College. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau technegol, rheoli ystadau, adnoddau dynol, rheoli iechyd a diogelwch, hyfforddiant a datblygiad staff, a chymorth ariannol. Mae gan y coleg gyfarwyddwr gwasanaethau a rheolwr rhaglenni. At ei gilydd, darperir arweinyddiaeth strategol ar gyfer y coleg gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau ac uwch dîm rheoli National Star.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymgysylltu'n dda mewn sesiynau, ac yn gwneud cynnydd cryf o'u manau cychwyn. Maent yn hapus, yn foesgar ac yn gwrtais â chyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae staff yn adnabod dysgwyr yn dda iawn, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu cyflawniadau. Maent yn cynllunio sesiynau sy'n ddiddorol ac yn cymell bron pob un o'r dysgwyr. Mae'r tiwtoriaid a'r hwyluswyr yn cynorthwyo dysgwyr yn llwyddiannus i gyrraedd eu targedau unigol. Mae eu trefniadau cynllunio a chymorth gofalus yn diwallu anghenion dysgu, emosiynol ac iechyd disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ailstrwythuro diweddar o ran arweinyddiaeth yn sicrhau bod gan y coleg arweinwyr amser llawn cyson ar y safle. Mae uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol yn y coleg. Mae eu cylch hunanasesu a gwella trylwyr yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau sesiynau ac ymgynghori â staff a rhanddeiliaid eraill. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y coleg. Mae ganddynt gynlluniau cadarn i fynd i'r afael â meysydd y nodwyd bod angen eu gwella.

Mae'r coleg wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion o'r ymweliad monitro diwethaf, ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol yn unol â'r argymhellion.

Meysydd i'w datblygu

Mae'r coleg yn greadigol yn ei ddefnydd o ofod ac mae ganddo adnoddau da. Fodd bynnag, mae'r gofod sydd ar gael, yn fewnol ac yn allanol, yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr elwa ar gwricwlwm sy'n diwallu eu hanghenion yn llawn. Er bod arweinwyr yn mynd ati i chwilio am safle mwy addas, nid ydynt wedi llwyddo i sicrhau hyn eto.

Mae'r coleg yn darparu sesiynau rheolaidd i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw. Mae'n darparu sesiynau medrau coginio a medrau corfforol wythnosol, fel *tai chi* a dawns, wedi'u hategu gan deithiau cerdded a gweithgareddau awyr agored ysgogol. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn gwneud digon i gynorthwyo dysgwyr i wneud dewisiadau iach am yr hyn y maent yn ei fwyta a'i yfed.

Argymhellion

Dylai'r coleg:

- A1 Barhau i gryfhau'r ddarpariaeth i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i wneud dewisiadau iach.**
- A2 Sicrhau bod yr amgylchedd yn galluogi dysgwyr i elwa ar gwricwlwm sy'n diwallu eu hanghenion yn llawn.**

Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Argymhelliad 1: Sicrhau bod cynllunio tiwtoriaid yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu'n annibynnol, yn unol â galluoedd dysgwyr

Cryfhawyd gwaith y coleg i arfogi dysgwyr â'r medrau sydd eu hangen arnynt i fyw bywyd mwy annibynnol trwy ganolbwyntio ar hyfforddiant staff a chynllunio gofalus. Mae'r cynlluniau dysgu, rhaglenni profiad gwaith teilwredig ac amserlenni dyddiol, sy'n cynnwys ystod ehangach o weithgareddau ymarferol wedi'u paru ag anghenion unigol, yn darparu cyd-destunau gwerthfawr i ddatblygu annibyniaeth dysgwyr a chefnogi eu cyfnod trosglwyddo o'r coleg.

Mae staff yn y coleg wedi ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol gwerthfawr i'w helpu i wella cynllunio i ddatblygu annibyniaeth dysgwyr. Mae gan y staff ddealltwriaeth gytûn ynglŷn â sut beth yw annibyniaeth i bob un o'u dysgwyr, a sut bydd hyn yn eu cynorthwyo ar gyfer eu cyfnod trosglwyddo ar ôl y coleg. Mae staff yn ymchwilio a chynllunio ar gyfer defnyddio ystod ehangach o strategaethau cymorth, fel defnyddio modelau rôl sy'n gyfoedion, storïau cymdeithasol a chiwiau gweledol. Yn ychwanegol, gwnaed gwaith i gryfhau arfer yn yr ystafell ddosbarth a gweithgareddau sicrhau ansawdd o ran addysgu.

Mae'r datblygiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr sy'n dod yn gynyddol hyderus ac annibynnol, er enghraifft wrth wneud brechdanau ar gyfer eu siop frechdanau, cyflwyno ar radio lleol neu gyfarfod ag ymwelwyr, a'u tywys. Hefyd, o ganlyniad i'r hyfforddiant a'r hyfforddi a'r adborth parhaus y maent yn eu cynnig i'w gilydd, mae staff wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth o sut i hyrwyddo annibyniaeth dysgwyr, a phryd i gamu'n ôl.

Argymhelliad 2: Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau yn gysylltiedig â gwaith

Mae'r coleg wedi cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau yn gysylltiedig â gwaith. Mae wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol ag ystod o gyflogwyr, ar y safle ac yn allanol, i alluogi dysgwyr i gael profiad o gyfleoedd yn gysylltiedig â gwaith, yn unol â'u diddordebau a'u cyrchfannau posibl yn y dyfodol.

Mae cyfleoedd ar y safle yn cynnwys cynnal menter gymdeithasol sydd â'i chyllideb ddynodedig ei hun. Mae'r gwasanaeth 'troli bwyd' hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr brynu stoc, dosbarthu a gweini cwsmeriaid a chyfrif am dderbyniadau. Yn ddiweddar, ar ôl archwilio eu gwerthiannau, a nodi'r nwyddau mwyaf poblogaidd y mae cwsmeriaid yn eu prynu, mae dysgwyr yn hyrwyddo dewisiadau iachach trwy godi llai am ffrwythau.

Mae cyfleoedd gwaith allanol presennol yn cynnwys gweithio mewn canolfan anifeiliaid anwes ac ymlusgiaid, yng Nglandŵr Cymru, mewn caffi lleol, ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2020